Papur Bro
Papur Y Cwm
75c
Rhifyn 386
Rhifyn Mai 2020



# O'r Bont i'r Ardd



Yn ddiweddar, bu Dr Joan Cottrell, neu Joan Muir fel y bydd pobl Pontyberem yn ei chofio, ar ymweliad â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthe. Heblaw am ofalu am ddiadell fechan o ddefaid Llŷn ar ei thyddyn yn ardal y Borders yn yr Alban, mae Joan yn gweithio i Ymchwil Coedwigaeth (*Forest Research*) ac yn gyfrifol am y labordy moleciwlar sy'n gwneud ymchwil i goed a rhywogaethau'r coetiroedd. Mae galw mawr am ei harbenigedd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Roedd Joan am glywed mwy am y prosiect Achub Peillwyr ac am y gwaith sy'n cael ei wneud yn labordai'r Ardd. A phwy well na merch arall o Bontyberem, Abigail Lowe, i'w thywys? Mae Abigail yn ymchwilio i'r maes ar gyfer ei gradd doethuriaeth. Bu'n brysur dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dadansoddi paill o gyrff peillwyr er mwyn barcodio DNA. Bydd hyn yn dangos pa blanhigion mae gwenyn mêl, pryfed hofran, cacwn a gwenyn unigol yn ymweld â nhw ac felly'n galluogi garddwyr i achub pryfed peillio. Dangosodd Abigail ei chasgliad helaeth o wenyn a phryfed hofran a gasglwyd o fewn tiriogaeth yr Ardd ac a fu'n rhan o'i hastudiaeth. Bu darganfod gwenynen hirgorn (Eucera longicornis) sydd yn rhywogaeth brin iawn erbyn hyn yn brofiad cyffrous.

Bu sianelu ffrwyth ymchwil yr Ardd tuag at y prosiect Tyfu'r Dyfodol yn gam adeiladol iawn ar gyfer yr amgylchedd. Mae garddwyr bellach yn gallu prynu planhigion o'r Ardd sydd yn arddangos logo Achub Peillwyr. Mae'r planhigion hyn nid yn unig yn cefnogi pryfed peillio, ond wedi'u tyfu heb ddefnyddio pryfleiddiaid synthetig na chompost mawn ac yn cael eu cynhyrchu gan dyfwyr yng Nghymru.

## Caronafeirws Covid-19 – Canllawiau llawn ar aros gartref ac i ffwrdd oddi wrth eraill

- Arhoswch gartref
  Peidiwch â mynd allan heblaw i brynu bwyd, am resymau iechyd neu i weithio (dim ond pan nad yw hi'n ymarferol resymol i weithio gartref)
- Arhoswch 3 metr (6tr) i ffwrdd oddi wrth bobl eraill
- Golchwch eich dwylo cyn gynted ag y byddwch yn cyraedd adref

**Gall unrhyw un ledaenu'r feirws**

GIG CYMRU NHS WALES

# Cornel Coginio

## Pei Cyw Iâr mewn Potyn gyda Pherlysiau



**Cynhwysion**


2 lwy fwrdd o olew olewydd – ac ychydig yn fwy i'w daenu dros y crwst
Bwnshed o shibwns wedi'u sleisio yn ddarnau 3cm
250g o sbigoglys wedi'i rewi
6 clun cyw iâr wedi eu coginio'n barod
350ml o stoc cyw iâr poeth
½ llwy fwrdd o fwstard
200g o bys wedi rhewi
200ml o *creme fraiche*
½ bwnshed bach o daragon wedi'i dorri'n fân
Bwnshed bach o bersli wedi'i dorri'n fân
Pecyn 270g o grwst ffilo

**Dull**

Cynheswch y ffwrn i 200C/180C ffan/marc nwy 6. Cynheswch yr olew mewn dysgl caserol fawr sydd ddim yn rhy ddwfn, ar wres canolig. Ychwanegwch y shibwns a'u ffrïo am 3 munud. Trowch y sbigoglys trwyddo a'u coginio am 2 funud.

Tynnwch y croen oddi ar y cyw iâr a'i waredu. Rhwygwch y cyw iâr oddi ar yr asgwrn a'i rhoi yn y ddysgl a gwaredu'r esgyrn. Trowch y stoc a'r mwstard trwyddo. Cynheswch nes ei fod yn murferwi a choginiwch 5–10 munud.

Trowch y pys, creme fraiche a'r perlysiau i mewn – yna tynnwch oddi ar y gwres. Gwasgwch y crwst ffilo yn eich dwrn a'i roi dros y cymysgedd – brwsiwch gydag ychydig o olew a phobi'r cyfan am 15–20 munud nes ei fod yn frown.



Papur Bro Papur y Cwm
www.papurycwm.org.uk

## Pwy Yw Pwy

**Pwyllgor**

Helen Mainwaring
Joy Williams
Susan Roberts
Ann Rees
Paul Thomas
Alan Jones
Meinir Thomas
Arthur Rees

**Swyddogion Chwaraeon**
Nigel Owens
Alan Jones

**Cadeirydd**
Helen Mainwaring
0789 99 22 858
helen@acati.co.uk

**Ysgrifennydd**
Meinir Thomas
74, Heol Llannon
Pontyberem, Llanelli
01269 871761

**Trysorydd a Swyddog Hysbysebion**
Paul Thomas
Erwau Glas
Drefach
07983 578771
papurycwm@hotmail.co.uk

**Pethe'r Plant**
Gwennan Mainwaring
Gareth Mainwaring

**Prif Ddosbarthwr**
Eric Wilkins
23 Troed y Bryn, Tymbl
01269 844639

**Swyddogion Cyfetholedig**
Cynrychiolydd o
Fenter Cwm Gwendraeth Elli

Cyhoeddir Papur y Cwm gan Fwrdd Golygyddol y Papur.
Nid yw'r Bwrdd Golygyddol, yr argraffwyr, na'r cysodwyr o angenrheidrwydd yn cytuno â phob safbwynt a fynegir yn y papur.

**Golygydd**
Helen Mainwaring

# Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

## Y Barcut Coch



Wel, mi oedd bach o grafu pen y tro yma, roedd gen i bethau i ddweud ond angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel sy'n digwydd yn aml, ddoth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi ac yn darllen erthygl am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan. Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen, ac wedi bod yn ddigon hapus i dynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio ac yn gosod y camera yn iawn. Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant ble maen nhw'n bwydo'r barcut coch. Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.
Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed - maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i fwced o gig - yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwyso'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn – y rhan fwyaf roeddwn i'n gallu eu taflu a dwsin i gadw. Dyma oedd y gorau. Popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond ces i hwyl.
Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech gyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi cael eu hallforio i Iwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow.
Os oes gennych chi siawns i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle, ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera. Mwynhewch gyda'ch llygaid!
Gobeithio pan fydd yr argyfwng hwn drosodd y cewch ddod efo ni i fwynhau ein cefn gwlad - edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld pryd fyddwn ni'n cerdded yn eich ardal chi. Bydd croeso mawr i chi!

*Rob Evans*

**BYW TU ALLAN I'R ARDAL?**
Gallwch dderbyn 'Papur y Cwm'
drwy'r post trwy ddanfon £17.00
(tanysgrifiad blwyddyn) at:-
Helen Mainwaring
Erwau Glas, Drefach, Llanelli.
SA14 7BA
Ffôn: 01269 267191



Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer
Rhifyn Mehefin 2020
erbyn 12.00yp ar
**20 Mai 2020**

# GRAVELLS

Gwasanaethu y cymuned lleol am 75 mlynedd
Serving the local community for over 75 years

**Am eich holl gwasanaeth moduro!**
**For all your motoring needs!**

Motability
The leading car scheme for disabled people

Am eich cynnigion diweddaraf ewch i:

For all of our latest offers visit:

**www.gravells.com**

**Ffôn: 01554 890436**

3-5 Banc Pendre, Cydweli, Sir Gaerfyrddin, SA17 4TA.

RENAULT · KIA · DACIA · ISUZU

**Charles B Sams Electrical**
Maesybont,
Llanelli, SA14 7TA

NICEIC

Gwasanaethau Trydanol
Cartref a Masnachol

Gwasanaeth
Proffesiynol a Phersonol

Ffôn/Ffacs: 01558 668978

Ffôn Symudol 07970224001

# A R I A N

**cynilo . buddsoddi . diogelu**

**www.ariandirect.co.uk**

**Adeilad 24, Parc Busnes y Strade, Llangennech, Llanelli SA14 8YP**

**Symudol: 0777 40 40 227 Cefnogaeth: 07539 782503**
**Swyddfa: 0844 3510 667**
**heddwyn@arianfp.co.uk**

.

Ceir Modur Cars

Cyflenwad o geir safonol o Gwm Gwendraeth
A selection of quality cars from the Gwendraeth Valley

We buy, sell and source cars
Rydym yn prynu, gwerthu ac yn caffael ceir

modur21@gmail.com

07891 399700
(16.30 - 22.30)

http://modurcars.cymru

# Gair gan Nia Griffith AS



Byddech chi i gyd, dwi'n siŵr, fel fi, am ddiolch i holl staff ein GIG, ein gweithwyr gofal a'r bobl niferus eraill sy'n gwneud gwaith hanfodol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yr her sydd bellach yn ein hwynebu ni yw sicrhau ein bod ni i gyd yn eu cefnogi nhw trwy beidio â chymryd pethau'n ganiataol a thrwy gadw ati i beidio â gadael y tŷ os nad oes gwir angen. Mae'n rhaid I ni gofio mai ymdrech hirdymor yw hon ac mae'n debyg na fyddwn yn dychwelyd i'r hen ffordd o fyw am wythnosau neu fisoedd o bosib.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi gwirfoddoli boed yn staff iechyd oedd wedi ymddeol ac sydd bellach wedi dychwelyd, unigolion sydd wrthi'n cynnal banciau bwyd neu'r rheiny sy'n cludo meddyginiaeth i unigolion bregus. Mae'n codi calon i weld bod trigolion Llanelli wedi dod at ei gilydd i gefnogi'r rheiny sy'n gaeth i'w tai.


utk Ungoed-Thomas & King
Solicitors · Cyfreithwyr

Am gyngor proffesiynol yn y swyddfa neu gartref holwch **Luned Voyle**:

Gwneud Ewyllys
Treth Etifeddol
Ffïoedd Cartref Gofal
Gwasanaeth Cymraeg
Pwerau Atwrnïaeth (*Power of Attorney*)

luned.voyle@utk.co.uk 01267 237441 www.utk.co.uk


Rydym yn parhau i ddelio â phryderon ein hetholwyr gan gynnwys yr angen am ragor o gymorth i'r rheiny nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth o dan unrhyw un o gynlluniau presennol y Canghellor. Rydym hefyd yn mynd ati i daclo cyflogwyr drwg, helpu unigolion sy'n ei chael yn anodd cael cymorth o'r system budd-daliadau ac rydym wrthi'n lobïo'r Swyddfa Dramor i gynnig cymorth i drigolion lleol sy'n ei chael yn anodd dychwelyd o dramor.

Mae'n gynyddol amlwg fod COVID-19 yn effeithio ar bob un rhan o'r economi mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Rydw i wedi bod yn lobïo'n gryf i sicrhau bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod angen cefnogi ein diwydiannau dur a ffermio lleol. Mae'n ergyd i weld bod y pris y mae ffermwyr yn ei gael am laeth yn disgyn a bod cwsmeriaid yn gwrthod eu talu ar amser o ganlyniad i'r cwymp mewn galw. Wrth gwrs, achoswyd y cwymp yma gan effeithiau Coronafeirws.

Mae maint yr argyfwng hwn yn golygu bod angen i'r Llywodraeth ymyrryd ar unwaith er mwyn sicrhau dyfodol ein diwydiant ffermio, yn enwedig ffermydd teuluol sy'n asgwrn cefn cymunedau gwledig. Nid yw hi mor syml â chau siop.

Rhaid godro buchod a sicrhau bod costau sefydlog y ffermydd yn cael eu talu.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ffermwyr gymryd penderfyniadau hir a byr dymor anodd a fydd yn effeithio ar ddyfodol eu ffermydd, ac, yn eu tro, ar ein diwydiant bwyd.

Dyma pam yr wyf i wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau cefnogaeth hir a byr dymor sylweddol er mwyn sicrhau bod gennym ddiwydiant fferm iach ar gyfer y dyfodol.

Os oes awydd gwirfoddoli arnoch, neu os ydych yn ymwybodol o unigolyn neu fusnes sydd mewn angen, mae llinell gymorth y Cyngor ar agor bob dydd: 01267 234567. Mae staff fy swyddfa hefyd ar gael i'ch helpu. Cysylltwch â mi trwy e-bost: nia.griffith.mp@parliament.uk neu trwy ffonio 01554 756374.

**Nia Griffith AS**

# Ysgol Maes y Gwendraeth yn cyfrannu at y frwydr yn erbyn COVID-19

Mae athrawon Adran Dylunio a Thechnoleg Ysgol Maes y Gwendraeth wedi bod yn defnyddio peiriannau'r ysgol i greu offer arbennig i helpu'r frwydr yn erbyn y Coronafeirws.

Efallai bod y dosbarthiadau a'r coridorau yn wag ar hyn o bryd, ond mae'r adran DTech wedi bod yn fwrlwm o weithgarwch ac wedi llwyddo i greu offer diogelwch personol hanfodol.

Dau athro sydd wedi bod wrth galon y gwaith yw Neil Maliphant a Celyn Jukes ac mae'r ddau yn falch iawn o'u cyfraniad,

"Rydyn ni'n falch i ymuno gyda'r gallu i gyfrannu at yr ymgyrch!," meddai Neil sydd wedi cael ei fagu ym Mhontyberem ac yn dal i fyw yn y cyffiniau gyda'i wraig a'i ddwy ferch.

"Mae wedi bod yn waith tîm arbennig a phwysig iawn."

Maen nhw wedi llwyddo i greu 380 o fasgiau wyneb. Gwaith arbennig a phwysig iawn,

Da iawn chi!

#technolegmaesygwendraeth



*Celyn Jukes a Neil Maliphant, athrawon yn Adran Dylunio a Thechnoleg Ysgol Maes y Gwendraeth*



*380 o fasgiau diogelwch a grëwyd gan staff Ysgol Maes y Gwendraeth*


RODERICKS

CYFREITHWYR

W. Robert Lewis Ll.b (HONS)

15 Hall Street Ffôn 01554 773424

Llanelli, Sir Gaerfyrddin Ffacs 01554 774713

# Menter Cwm Gwendraeth yn Cyrraedd 40,000 o bobl

Ers y 23ain o Fawrth, mae staff MCGE yn gweithio o ford y gegin yn eu cartrefi, sydd dipyn yn wahanol i'r arfer.  Yng nghanol y cyfnod gwallgo 'ma, bu rhaid i ni feddwl am ffyrdd o gyrraedd pobl Cwm Gwendraeth a Llanelli, a hynny heb neidio mewn car i ymweld ag ysgol na chynnal cyfarfod â phartneriaid yn y Cwtsh ym Mhontyberem.  Felly, dim ond un peth amdani, achub mantais ar bŵer y wê a chyfryngau cymdeithasol.

O wythnos i wythnos, mae staff MCGE yn cynllunio rhaglen ddigidol gyffrous, bywiog sy'n addas at ddant bawb ac yn targedu unigolion o bob oed.  Ein bwriad yw cyffwrdd ar dri bwnc llosg sy'n berthnasol i'r mwyafrif ohonom heddiw: cadw'n heini, pobi cartref a iechyd meddwl.  Nôd ein sesiynau yw cynnig amryw o weithgareddau, a hynny drwy ddefnyddio a normaleiddio'r iaith Gymraeg.  Mae hyn hefyd yn dangos bod modd cael sbri wrth ymarfer corff, crosio, coginio a hynny drwy ddefnyddio ein mamiaith.  Pynciau newydd i rai ohonoch chi efallai?


Braf hefyd yw pwysleisio ein bod yn gwneud ein gorau glas i gyd-weithio gyda pobl sy'n lleol i'n hardal.  Rhai pobl yn wynebau cyfarwydd, adnabyddus, eraill yn wynebau newydd.  Mae'n gyfle i barhau i gyd-weithio gyda phartneriaid allweddol mewn cyfnod bregus, a hefyd yn gyfle i roi platfform i unigolion neu fusnesau newydd.

Meddai Alaw Davies, Is-reolwr MCGE:

'Braf yw gallu parhau i gynnig sesiynau safonol mewn ffurf tipyn bach yn wahanol i'n bobl lleol ac unigolion a theuluoedd led led Cymru.  Wrth wneud hyn, ein gobaith yw cynyddu ein cynulleidfa darged a chydweithio'n ddwys gyda'r rhain yn dilyn COVID-19.'

Dywedodd Nia Tudor, mam newydd, sydd wedi sefydlu tudalen Instagram newydd, 'Bwydo rhai bach' yn ystod y cyfnod yma:

'Dwi'n wreiddiol o Bontyberem, ond wedi ymgartrefu yn y Barri gyda'r teulu bach.  Dwi'n bennaeth drama yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ac yn defnyddio'r amser yma i rannu gwybodaeth, lluniau a ryseitiau gwahanol i sicrhau bod Nansi yn cael amrywiaeth o fwydydd.  Rhywbeth bach hwylus tra fy mod i ddim yn yr ysgol yn ddyddiol.  Dwi'n edrych ymlaen i gyd-weithio gyda MCGE a diolch am y cyfle.'




Ydych chi wedi cysylltu â ni am gopi o'r Capsiwl Covid?  Mae'r ddogfen yn addas i blant o bob oed.  Bydd hwn yn lyfryn i'n plant ni edrych nôl ar y cyfnod hanesyddol hwn.  Mae'r ddogfen wedi cyrraedd bron i 40,000 o bobl.  Mae ysgolion a grwpiau ar draws y wlad wedi bod yn cysylltu, yn ein llongyfarch ac yn gofyn am gopi a chaniatâd i'w ddefnyddio gyda'u disgyblion.  Diolch i chi am eich cefnogaeth.

Felly, os byddwch chi'n unigolyn lleol sydd am fentro i feysydd newydd yn ystod y cyfnod hwn ac am rannu eich profiadau ar ein platfform digidol, cysylltwch â ni.  Rydym yn awyddus i glywed gennych.

Facebook:  Menter Cwm Gwendraeth Elli;

Twitter: @MenterCGE;

Instagram: mentercwmgwendraeth

Am gopi o'r Capsiwl Covid, anfonwch ebost at alaw@mcge.org.uk /elen@mcge.org.uk

## Cynnydd Mewn Tipio Anghyfreithlon yn Sgil Covid-19

Efallai nad ydych chi wedi bod allan o'ch tŷ ryw lawer dros yr wythnosau diwethaf, ond os ydych chi mae'n siŵr y sylwch chi ar nifer o eitemau ar hyd a lled y Cwm sydd wedi cael eu tipio'n anghyfreithlon.

Mae Pontyberem yn un o'r ardaloedd lle gwelwyd cynnydd mewn tipio anghyfreithlon ac mae eitemau swmpus i'w gweld ar ochrau'r hewl ac yn y Parc.





*Eitemau wedi eu Tipio'n Anghyfreithlon ger Glynhebog ym Mhontyberem*

Mae Cyngor Sir Gâr wedi rhybuddio y bydd dirwyon i unrhyw rai sy'n cael eu dal yn tipio'n anghyfreithlon ac yn cyfaddef y gwelwyd cynnydd yn benodol mewn tipio gwydr.

"Ers dydd Llun 20 Ebrill mae'r holl fanciau caniau a phapur yn ein canolfannau ailgylchu cymunedol wedi cael eu newid i finiau gwydr ychwanegol," meddai'r Cyngor.

"Bwriad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol hon oedd gwneud y newid hwn gan y gellir ailgylchu caniau a phapur wrth ymyl y palmant yn y bagiau ailgylchu glas.

"Fodd bynnag, bydd y newidiadau bellach yn cael eu gweithredu yr wythnos hon gan fod cynnydd amlwg wedi bod mewn ailgylchu gwydr a'r galw am gyfleusterau ailgylchu gwydr mewn pentrefi a threfi ledled y sir o ganlyniad i gyfyngiadau yn ystod y pandemig Coronafeirws (COVID-19).

"Rhoddir blaenoriaeth i'r safleoedd hynny lle mae gwasanaethau gwastraff a glanhau yn cofnodi cynnydd mewn gwydr sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon.

"Mae preswylwyr yn cael eu hatgoffa i fynd â'u gwydr adref os bydd y biniau'n llawn gan fod unrhyw wydr sy'n cael ei adael ar y llawr yn cael ei ystyried fel tipio anghyfreithlon a gallech gael hysbysiad cosb benodedig.

"Cofiwch ddilyn canllawiau'r Llywodraeth. Mae gan rai archfarchnadoedd fanciau poteli felly dylech ddefnyddio'r rhain os ydych yn siopa am fwyd hanfodol. Fel arall, dylech gadw'r holl wydr mewn man diogel nes i'r cyfyngiadau gael eu codi".




*Eitemau wedi eu Tipio'n Anghyfreithlon ger Glynhebog ym Mhontyberem*

Byddwch yn wyliadwrus os digwydd i chi weld unrhyw achosion o'r fath yn yr ardal.

# I’r Silff Lyfrau

GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS




## Diwinyddiaeth Paul

gan gynnwys sylw arbennig i’w ddehonglwyr Cymreig
John Tudno Williams
Ebrill 2020

Mae *Diwinyddiaeth Paul* yn gyfrol gynhwysfawr sy’n trafod holl syniadaeth athrawiaethol yr Apostol Paul, ac yn unigryw fel yr ymdriniaeth lwyraf eto yn y Gymraeg ar y maes hwn. Tynnir sylw arbennig at drafodaethau cyfoes ar ddiwinyddiaeth yr Apostol, gan danlinellu cyfraniad ysgolheigion o Gymru – yn benodol, dau o gewri ysgolheictod y Testament Newydd yn yr ugeinfed ganrif, sef C. H. Dodd a W. D. Davies. Ni chyflawnwyd hyn o’r blaen mewn unrhyw iaith ar draws holl rychwant dysgeidiaeth Paul.

Trafodir perthynas yr Apostol ac Iesu; cefndir syniadol Paul; natur ei dröedigaeth a’i alwad apostolaidd, a’i ddealltwriaeth o natur y ddeddf Iddewig; ei syniadaeth am iachawdwriaeth a Pherson Crist; ei ddealltwriaeth o natur y bod dynol a gwaith yr Ysbryd ynddo ac arno; dysgeidiaeth foesegol yr Apostol; ei syniadaeth am yr eglwys; ei farn am eschatoleg a’r ‘Pethau Diwethaf’; a thrafodaeth ar gyfraniad y llythyrau yr amheir gan rai mai Paul oedd eu hawdur.

Dyma gyfrol a fydd o ddiddordeb i ddarllenwyr cyffredin yn ogystal ag arbenigwyr yn y maes

Gweinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw **John Tudno Williams**. Bu’n darlithio ym meysydd yr Hen Destament a’r Testament Newydd yn y Coleg Diwinyddol Unedig, Aberystwyth, am gyfnod helaeth, ac mae’n awdur esboniadau ar dri o lythyrau’r Apostol Paul. Bu’n Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a Lloegr 1990–1.




## Ailagor safle adeiladu yn Cross Hands

Mae gwaith wedi ailddechrau ar brosiect adeiladu o bwys yn Sir Gaerfyrddin, a gafodd ei atal dros dro ym mis Mawrth oherwydd y Coronafeirws. Ar ôl ystyried yn ofalus a gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno gyda'i gontractwr, Alun Griffiths Ltd, fod gwaith yn ailddechrau ar Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands.

Mae dyddiad cwblhau newydd ym mis Medi bellach wedi'i bennu ar gyfer y safle 24 erw (10 hectar), a fydd yn creu saith llain arall ar gyfer y safle cyflogaeth i ddarparu tua 500 o swyddi newydd. Roedd timau adeiladu yn ôl ar y safle ddydd Mawrth, 28 Ebrill, sef mis union ers i'r gwaith gael ei atal.

Dywedodd y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor, sy'n arwain y portffolio adfywio a datblygu economaidd: "Bydd ailddechrau'r gwaith

yn diogelu swyddi gwerthfawr yn y sector adeiladu, yn ogystal â gosod sylfaen ar gyfer adferiad economaidd Sir Gaerfyrddin wrth i ni ddod allan o'r sefyllfa bresennol.

"Er y bydd y dirwedd economaidd yn edrych yn wahanol iawn yn y dyfodol, bydd cael safleoedd parod gyda'r seilwaith priodol yn sylfaen gref ar gyfer cydnerthedd economaidd lleol a rhanbarthol.

"Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands yn darparu saith llain arall ar gyfer hyd at 500 o swyddi – ni allwn danbrisio pa mor bwysig fydd cefnogi'r economi leol drwy ddarparu'r math hwn o gyfle.

"Rydym wedi penderfynu caniatáu i'r gwaith hwn ailgychwyn ar ôl ystyried pethau'n ofalus, a dim ond oherwydd ein bod yn fodlon y gall y gwaith gael ei wneud yn ddiogel ac yn unol â'r holl ganllawiau perthnasol."

Dywedodd Richard Tidmarsh ar ran Alun Griffiths Ltd: "Hoffem sicrhau'r cyhoedd bod yr holl waith yn cael ei wneud gan ddilyn canllawiau llym y Llywodraeth, a bod trefniadau addas ar waith er mwyn i staff weithio'n ddiogel.

"Mae hwn wedi bod yn gyfnod cythryblus i'r diwydiant adeiladu ac mae'n wych bod nôl ar y safle."

Mae Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands wedi cael £2.3 miliwn gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae'n rhan o raglen Safleoedd Strategol Llywodraeth Cymru.

Bwriedir cwblhau'r gwaith ym mis Medi
2020 bellach, a bydd rhywfaint o waith tirweddu'n digwydd yn nhymor plannu'r hydref.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ac Alun Griffiths Ltd yn gofyn yn garedig i'r cyhoedd barchu'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol a pheidio â pheryglu diogelwch gweithwyr.

Os oes unrhyw beth yn achosi pryder i'r cyhoedd, cysylltwch â Swyddog Cyswllt Cymunedol Alun Griffiths Ltd, sef Jane Howells – Jane.Howells@alungriffiths.co.uk

## Cyngor Sir Gâr yn cefnogi busnesau'r sir

MAE Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymateb yn gyflym i gefnogi busnesau lleol yr effeithir arnynt gan yr argyfwng Coronafeirws.

Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu rhoi'r grantiau sydd ar gael cyn gynted â phosibl, gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi busnesau. Mae'r pecyn cymorth grant ar gael i'r holl fusnesau oedd ar y gofrestr ardrethi busnes ar 20 Mawrth, 2020, ac sydd yn y categorïau canlynol:

- Yn y sectorau adwerthu, hamdden a lletygarwch â gwerth ardrethol rhwng **£12,001 a £51,000**, mae grant o £25,000 ar gael ar gyfer y busnes.
- Mae gan fusnesau sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ac sydd â gwerth ardrethol o **£12,000 neu lai,** hawl i grant o £10,000.

Hefyd, mae seibiant ardrethi busnes am flwyddyn ar gael ar gyfer busnesau adwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru (lle mae'r gwerth ardrethol yn is na £500,000).

Dywedodd y Cynghorydd David Jenkins, Aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin dros Adnoddau: "Rydym yn deall bod hwn yn gyfnod hynod heriol i fusnesau, ond hoffwn sicrhau busnesau yn Sir Gaerfyrddin fod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i helpu.

"Ers i ffurflenni cais cymorth ariannol Llywodraeth Cymru fod ar gael bron i bythefnos yn ôl, mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn gwneud eu gorau glas i brosesu'r hawliadau ac ymateb i unrhyw ymholiadau cyn gynted â phosibl.

"Mae prosesu gwerth mwy na £15 miliwn o hawliadau mewn llai na phythefnos yn dangos pa mor ymrwymedig yw'r Cyngor i helpu.

"Mae cymorth ariannol Llywodraeth Cymru yn un o gyfres o becynnau ariannol sydd naill ai bellach ar gael neu y bwriedir eu bod ar gael, ac mae'r Cyngor hefyd yn paratoi cymorth ychwanegol i'r hyn sydd eisoes ar waith."

Anogir busnesau sy'n gymwys i gael cymorth i wneud cais - mae staff y Cyngor yn anelu at wneud

yr holl daliadau i fusnesau cyn pen 10 diwrnod ar ôl derbyn ceisiadau.

Nid oes angen mynd ar drywydd y ceisiadau dros y ffôn, bydd staff y Cyngor yn gwneud eu gorau i sicrhau y gwneir y taliadau i fusnesau cyn gynted â phosibl.

Gellir dod o hyd i'r ffurflen gais drwy fynd i http://newyddion.sirgar.llyw.cymru/2020/02/canllawiau-coronafeirws-covid-19/ - edrychwch am yr adran cymorth busnes.

Gall busnesau ddarganfod gwerth ardrethol eu heiddo drwy fynd i www.gov.uk/correct-your-business-rates

## Cymorth i blant agored i niwed yn ystod Covid-19

Mae cymorth i blant agored i niwed a'u teuluoedd yn parhau yn ystod argyfwng y coronafeirws.

Mae staff o'r adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn parhau i gynnig cymorth llesiant, yn ogystal â seibiant i deuluoedd sydd ei angen.

Gan fod ysgolion wedi cau, mae penaethiaid a staff mewn lleoliadau arbenigol yn cysylltu'n rheolaidd â theuluoedd i wneud yn siŵr bod plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a bod y teulu'n ymdopi.

Mae un o swyddogion cyswllt â theuluoedd y cyngor wedi cysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd eraill â phlant sydd angen cymorth unigol i weld pa gymorth sydd ei angen a'r ffordd orau o ddarparu’r cymorth hwnnw, naill ai drwy un o'r canolfannau gofal plant neu drwy drefniadau eraill.

Caiff anghenion rhai disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt eu diwallu drwy'r canolfannau gofal plant a'r adborth gan rieni yw bod hyn yn gweithio'n dda.

Er bod ysgolion ar gau, mae'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, Area 43, yn dal i fod ar gael i blant a phobl ifanc o Flwyddyn 5 i fyny. Mae staff ar gael i ddarparu gwybodaeth, cymorth a chwnsela o bell, naill ai ar-lein, dros y ffôn neu drwy neges destun, a thrwy ei dudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol. Ewch i Area43.co.uk/cy i gael rhagor o fanylion.

Dywedodd y Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant: “Mae gwasanaethau seibiant a chymorth yn parhau ar gyfer plant sy'n agored i niwed, a byddant yn parhau cyhyd â bod y staff yn iach a bod ardeuluoedd eu heisiau a'u hangen.

“Mae'n bwysicach nag erioed bod y cymorth hwn ar gael i deuluoedd, ac mae hefyd yn bwysig bod ein pobl ifanc yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth cwnsela tra bydd yr ysgolion ar gau. Mae hwn yn gyfnod anodd ac ansicriawn i bawb, ac mae'r math hwn o gymorth yn hanfodol.

“Rwyf hefyd yn falch iawn o gael adborth cadarnhaol gan rieni plant ag anghenion dysgu y chwanegol sy'n defnyddio'r canolfannau.”

Os oes gennych bryderon ynghylch plentyn neu berson ifanc, cysylltwch â ni drwy e-bostio CRTChildren@sirgar.gov.uk neu drwy ffonio 01554 742322. Os bydd problem y tuallan i oriau swyddfa na all aros, ffoniwch 0300 333 2222.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a chymorthir ieniar y wefan:
newyddion.sirgar.llyw.cymru/coronafeirws

## Cynllun Dysgu ar Waith i Ddisgyblion Sir Gâr

Mae adran addysg y Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu cynllun parhad dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin mewn ymateb i'r coronafeirws.

Yn dilyn cau'r ysgolion, mae llawer o waith da wedi'i wneud i liniaru'r effaith ar ddisgyblion trwy ddarparu gweithgareddau priodol ac adnoddau dysgu o ansawdd uchel.

Fodd bynnag, gyda'r cyfyngiadau symud yn parhau am o leiaf dair wythnos arall, mae'n bwysig bod cynlluniau ar waith i adeiladu ar y gwaith ardderchog a wnaed hyd yma.

Hoffem roi sicrwydd i rieni bod y paratoadau'n mynd rhagddynt yn dda, a bod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gref i gynnal cynllun parhad dysgu adeiladol a chadarn ar gyfer ein pobl ifanc.

Mae swyddogion o'r adran addysg wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ESTYN, partneriaid rhanbarthol, penaethiaid a staff ysgolion i ddatblygu'r ffordd newydd hon o ddysgu.

Y nod yw ysgogi ein holl ddysgwyr ac ymgysylltu â hwy trwy gyfrwng ystod o weithgareddau perthnasol er mwyn sicrhau darpariaeth addysgol yn ogystal â diogelu eu lles.

Dywedodd y Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant: "Hoffwn ddiolch i benaethiaid, staff ysgolion a rhieni am eu holl gefnogaeth ac am y gwaith clodwiw a gyflawnwyd hyd yma, yn ystod amgylchiadau mor anodd.

"Ein blaenoriaeth wrth gwrs yw cadw ein plant yn ddiogel, ond mae angen i ni hefyd eu cadw i ddysgu fel y gallant ddal i fyny cyn gynted ag y bo modd pan fydd yr ysgolion yn ailagor.

"Rwyf wedi cael llawer o adborth cadarnhaol gan athrawon a rhieni am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud. Rydym yn ffodus iawn bod gennym fynediad at blatfformau dysgu digidol a'r offer ystafell ddosbarth diweddaraf ar-lein, ac mae'n gweithio'n dda.

"Wrth symud ymlaen, er nad ydym yn disgwyl i rieni fod yn athrawon ffurfiol, mae angen i ni roi cefnogaeth iddynt i'w helpu hwy i helpu eu plant. Mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogi eu lles meddyliol a chorfforol, sydd yr un mor bwysig, yn enwedig ar hyn o bryd.

"Rwyf yn fodlon bod gennym gynllun da ar waith i helpu i barhau â'r holl waith gwych sydd wedi'i wneud hyd yma ac adeiladu arno."

Bydd yr ysgolion mewn cysylltiad uniongyrchol â rhieni gyda rhagor o wybodaeth am barhad dysgu i ddisgyblion.

Gofynnir i rieni atebyr arolwg hwn gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â dysgu gartref tra bod yr ysgolion ar gau.

Mae rhagor o wybodaeth am bolisi Llywodraeth Cymru sef Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Datganiadpolisiparhaddysgui'wchaelareugwefan.

## Wythnos Cymorth Cristnogol ar-lein! 10 – 16 Mai 2020

Mewn ychydig wythnosau, mae pandemig y Coronafeirws wedi creu newid rhyfeddol yn ein cymdeithas.

Mae'r haint wedi effeithio pob rhan o fywyd. Daeth â dioddefaint ac ansicrwydd i gymaint, yma a thramor, gan wthio'i hun i flaen ein meddwl, ein sgyrsiau a'n gweddïau. Ac rydan ni i gyd yn gorfod addasu o'i oherwydd.

Mae eglwysi Cymru hefyd wedi addasu, wrth iddynt gael eu cau allan o'u hadeiladau. Ond mae nifer wedi ymateb i'r her a bellach ceir gwledd o oedfaon a myfyrdodau ar-lein i'n helpu i barhau i addoli.

Yn yr un ffordd, mae Cymorth Cristnogol hefyd yn gorfod addasu. Am y tro cyntaf ers degawdau lawer, ni allwn gynnal Wythnos Cymorth Cristnogol arferol ym mis Mai eleni. Ond tydi hynny ddim yng olygu ein bod am wneud dim.

Bydd cyfle i gynnal y gweithgareddau arferol yn yr hydref, ond mae cyfle i ymuno mewn gweithgareddau ar-lein ym mis Mai. Mae Trefn Gwasanaeth, Gweddïau a Nodiadau Pregeth i gyd yn barod ar ein gwefan. Gallwch eu defnyddio ar eich cyfrifiadur neu ddyfais, neu eu hargraffu ar bapur gartref.

I'r eglwysi hynny sy'n paratoi oedfaon ar-lein bob Sul i'w haelodau, beth am ddefnyddio'r Trefn Gwasanaeth arbennig sy wedi ei pharatoi ar gyfer Sul 10 Mai? Mae'n troi o amgylch yr arfer pwysig o olchi dwylo. Yn ychwanegol bydd gennym ddefosiwn dyddiol ar fideo ar ein cyfryngau cymdeithasol a chwis ar Facebook i Gymru gyfan ymuno ynddo! A does dim yn eich atal rhag meddwl am eich syniadau codi arian ar-lein eich hun. Byddem wrth ein bodd yn cael dathlu'ch syniadau creadigol.

Meddai Cynan Llwyd, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru dros dro, 'Nid yw cariad yn darfod byth. Mae'r Coronafeirws yn effeithio arnom i gyd. Ond mae cariad yn ein huno i gyd. Gadewch inni i gyd uno dros Wythnos Cymorth Cristnogol a sefyll mewn undod dros y mwyaf bregus yn ein byd.' Cewch hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a'r adnoddau ar ein gwefan - https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/coronafirws

## Galwad am wirfoddolwyr cymunedol

MAE cymunedau ledled Sir Gaerfyrddin wedi bod yn dod ynghyd i gefnogi ei gilydd mewn ymateb i'r Coronafeirws. Mae busnesau hefyd wedi helpu lle bynnag y gallant gan gynnig cymorth ymarferol ac emosiynol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn chwilio am wirfoddolwyr cymunedol ychwanegol i sicrhau bod cynifer o ddewisiadau â phosibl ar gael i gefnogi'r rhai sydd angen cymorth. Mae angen tair rôl allweddol ym mhob cymuned - cydgysylltydd lleol, hyrwyddwr digidol a gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn.

Byddai cydgysylltydd lleol yn bwynt cyswllt allweddol i bobl yn y gymuned honno sydd angen cymorth a chefnogaeth. Byddai angen iddo gyd gysylltu'r cymorth hwnnw hefyd. Byddai hyrwyddwr digidol yn bwynt cyswllt allweddol i bobl yn y gymuned honno sydd angen cymorth technegol. Byddai hefyd yn ofynnol i chi gysylltu â phobl nad ydynt ar-lein a rheoli cyfrifon ar eu rhan.

Byddai gwasanaeth cyfeillio ar gyfer yr henoed a phobl agored i niwed yn cynnwys sgwrsio â phobl neu eu ffonio.

Dywedodd y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin:

***"Mae'r cymorth sydd ar gael eisoes yn ein cymunedau yn galonogol iawn. Mae pobl o bob cefndir wedi dod ynghyd i helpu ei gilydd drwy'r cyfnod eithriadol hwn. Er mwyn sicrhau bod cynifer o ddewisiadau â phosibl ar gael i'r rheini sydd angen cymorth, mae angen mwy o bobl i helpu felly cysylltwch â ni os gallwch gynnig awr neu ychydig oriau. Bydd llawer o bobl yn teimlo'n unig ac wedi'u hynysu wrth i'r cyfyngiadau symud barhau a gall galwad ffôn neu gadw mewn cysylltiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol wneud gwahaniaeth mawr."***

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

newyddion.sirgar.llyw.cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cael cymorth neu wirfoddoli, mae modd hefyd ffonio ein llinell gymorth (01267 234567) rhwng 8.30am a 6pm, saith niwrnod yr wythnos

## Cyhoeddi rhestr fer gwobrau llyfrau Tir na n-Og 2020

Mae llyfrau sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pynciau mawr sy'n poeni plant a phobl ifanc ymhlith y cyfrolau ar restr fer Gwobrau Tirna n-Og 2020 a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mawrth 2020.

**Gwobrau llyfrau Tir na n-Og 2020**

Mae'r rhestr fer o lyfrau Cymraeg yn y categori uwchradd yn ymdrin ag iechyd meddwl, anhwylderau bwyta a mewnfudo tra bod y categori cynradd yn cynnwys llyfrau stori am oddefgarwch, materoliaeth mewn cymdeithas a hanes menywod ysbrydoledig o Gymru.

Straeon wedi'u lleoli ar hyd arfordir a mynyddoedd Cymru am ddreigiau, chwedloniaeth, hud a lledrith sy'n cael sylw yn y rhestr fer ar gyfer llyfrau Saesneg.

Dathlu gwaith awduron a darlunwyr a gyhoeddwyd yn ystod 2019 y mae Gwobrau Tir na n-Og 2020, sy'n cael eu trefnu gan Gyngor Llyfrau Cymru a'u noddigan CILIP Cymru (sef cymdeithas llyfrgellwyr a gweithwyr gwybodaeth Cymru).

Sefydlwyd Gwobrau Tir na n-Og gan Gyngor Llyfrau Cymru yn 1976 i wobrwyo'r llyfrau gorau i blant a phobl ifanc, a thrwy hynny hybu prynu a darllen llyfrau da. Ers 1976, mae rhai o awduron mwyaf blaenllaw Cymru wedi ennill y wobr gan gynnwys Emily Huws, T. Llew Jones, Caryl Lewis, Gareth F. Williams ac Angharad Tomos. Cyflwynir tair gwobr o £1,000 i enillwyr y tri chategori. Mae'r gwobrau'n cael eu noddi gan CILIP Cymru, Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth Cymru.

Mae tri phrifgategori: llyfrau Cymraeg ar gyfer plant oedran cynradd, llyfrau Cymraeg ar gyfer oedran uwchradd, a llyfrau Saesneg ac iddynt gefndir Cymreig dilys ar gyfer oedran cynradd neu uwchradd.

**Rhestr Fer Gymraeg (Cynradd)**

- *Y Ddinas Uchel* – Huw Aaron (Atebol 2019). Mae Petra'n byw mewn dinas o dyrau a phawb yn treulio pob dydd yn eu codi'n uwch ac yn uwch. Llyfr stori-a-llun

am fateroliaeth cymdeithas gyda neges gadarnhaol wedi ei chyfleu mewn ffordd dyner, lawn hiwmor.

- *Genod Gwych a Merched Medrus* – Medi Jones-Jackson (Y Lolfa 2019). Llyfr lliwgar am 14 o fenywod ysbrydoledig o bob rhan o Gymru gan gynnwys Tori James, Laura Ashley, Eileen Beasley, Amy Dillwyn a Hazel Gomez. Llyfr llawn hwyl, ffeithiau, posau a gweithgareddau.

- *Pobol Drws Nesaf* – Manon Steffan Ros a Jac Jones (Y Lolfa 2019). Llyfr stori-a-llun sy'n ein hannog i beidio â beirniadu rhywun sy'n ymddwyn ac yn edrych yn wahanol i ni, ac yn dangos bod rhaid parchu pawb.







**Rhestr Fer Gymraeg (Uwchradd)**

- *Byw yn fy Nghroen* – Gol. Sioned Erin Hughes (Y Lolfa 2019). Profiadau dirdynnol deuddeg o bobl ifanc sydd wedi gorfod brwydro gyda salwch a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys afiechydon meddyliol a chorfforol fel cancr, nam ar y golwg, OCD, iselder a gorbryder.

- *Tom* – Cynan Llwyd (Y Lolfa 2019). Nofel i oedolion ifanc am Tom, bachgen 15 oed sy'n byw mewn fflat gyda'i fam ac yn gyfeillgar gyda chymydog 81 oed. Nofel ddirdynnol sy'n ymdrin â bwlio, gwrthdaro, mewnfudwyr, trais a salwch.

- *Madi*– Dewi Wyn Williams (Atebol 2019). Stori gref am ferch yn ei harddegau sy'n byw gydag anorecsia a bwlimia ac sy'n ceisio cuddio'r cyflwr.

Dywedodd cadeirydd panel beirniaid y llyfrau Cymraeg, Gwawr Maelor Williams o Adran Addysg Prifysgol Bangor: "Roedd darllen 40 o lyfrau gwreiddiol i blant ac oedolion ifanc fel aelodau panel Tirna n-Og 2020 wir yn brofiad gOgoneddus – ie, gydag O fawr arall. Roedd yr arlwy a gyhoeddwyd gan y cyhoeddwyr yn cynnig ffurfiau, lleoliadau, profiadau a chymeriadau amrywiol dros ben – y cyfan yn gwneud y profiad o gloriannu yn her ac yn hwyl, yn bleser a chyfrifoldeb yr un pryd.

"Roedd 'na leisiau i'w clywed gan y cyhoeddwyr eleni. Lleisiau awduron newydd, cyffrous ac unigryw. Llyfrau gan bobl ifanc i bobl ifanc. Canmoler y cyhoeddwyr am hyn. Ynghanol antur a ffantasi mae llais i lesiant plant, llais i ferched Cymru, llais i wydnwch meddwl ac iechyd meddwl a llais ibobl ifanc ag anhwylderau a chyflyrau corfforol.

Gyda mwy nag un gyfrol ar gyfer oedolion ifanc roedd troi'r tudalennau yn ddirdynnol."

**Gwersi piano, ffidil a ukulele**

ar gyfer pob oedran.
Athrawes gyfeillgar
a llawn hwyl.



lisamcave62@gmail.com

# Torri Record Enwebiadau Seremoni Wobrwyo Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn falch iawn o gyhoeddi y derbyniwyd y nifer mwyaf erioed o enwebiadau ar gyfer Seremoni Wobrwyo flynyddol Mudiad Meithrin eleni ers ei sefydlu. Torrwyd pob record o ran niferoedd gan i dros 450 o enwebiadau gael eu cyflwyno ar gyfer deg categori; Ardal Tu Allan, Gwirfoddolwr, Arweinydd, Cylch Ti a Fi, Cynhwysiant, Cynorthwy-ydd, Dewin a Doti, Meithrinfa Ddydd, Cylch Meithrin a Phwyllgor.

Mae ychydig o newid i'r drefn o ddyfarnu'r enillwyr i'r categori Cylch Meithrin eleni gan y bydd tri uchaf yn cael eu dewis o bob 4 talaith gydag enillydd ym mhob talaith ac yna bydd un o'r enillwyr yma'n cael eu dyfarnu'n enillydd cenedlaethol.

Meddai Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaethau ac Academi Mudiad Meithrin:

"*Yn ystod blwyddyn mor anodd, mae'n braf cael cyfle i ddathlu'r holl waith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad ac mae'r seremoni wobrwyo'n rhoi cyfle i Mudiad Meithrin gydnabod a diolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddiflino er lles plant bach Cymru*."

Meddai Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"*Mewn cyfnod mor heriol, mae'n braf rhannu newyddion da a nodi fod cynifer wedi manteisio ar y cyfle i enwebu cylch lleol neu feithrinfa. Rydym wedi gwirioni fel mudiad ein bod wedi derbyn cannoedd o enwebiadau! Beth bynnag arall sy'n mynd ymlaen o'n cwmpas, mae'n ffordd hyfryd i staff a gwirfoddolwyr gael eu cydnabod trwy gael eu henwebu gan rieni'r plant sy'n eu gofal*."

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y seremoni hon dros y bedair mlynedd ddiwethaf mae'r Mudiad yn edrych ymlaen at gynnal y Seremoni Wobrwyo yn y Theatr y Werin, Aberystwyth ar 17eg o Hydref eleni.

Cyn hynny bydd y panel dyfarnu'n trafod y ceisiadau yn ddigidol dros yr wythnosau nesaf cyn cyhoeddi rhestr fer ar gyfer pob categori yn fuan.

## Sir Gâredig - Rhannu Caredigrwydd Sir Gâr

Mae preswylwyr a busnesau ledled Sir Gaerfyrddin yn dangos ysbryd cymunedol arbennig drwy helpu a chefnogi'r rheiny sydd mewn angen yn eu cymunedau yn ystod y pandemig Coronafeirws (COVID-19).

Mae'r Cyngor wedi'i syfrdanu gan garedigrwydd preswylwyr yn ystod yr adeg eithriadol hon pan fydd cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn bwysicach nag erioed.

Mae nifer o grwpiau gwirfoddol wedi cael eu sefydlu i helpu lle bynnag y gallant, gan gynnig cymorth ymarferol ac emosiynol - ac mae'n anhygoel i'w weld.

Nawr rydym am helpu i ddod â hyn at ei gilydd a rhannu'r gwaith da sy'n cael ei wneud ledled y sir.

Bydd Sir Gâredig – Rhannu Caredigrwydd Sir Gâr yn cysylltu pobl sydd mewn angen â'r rheiny sy'n gallu helpu. Bydd yn darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac yn annog pobl i rannu straeon o garedigrwydd.

Mae'r enw SirGâredig yn cyfleu ein neges, sef bod Sir Gaerfyrddin yn garedig. Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan am y grwpiau cymorth amrywiol sydd wedi'u sefydlu a sut y gallwch wirfoddoli. Mae cynghorau tref a chymuned hefyd yn cydlynu gwirfoddolwyr yn eu hardaloedd ac yn gweithio'n agos gyda grwpiau lleol. Ceir gwybodaeth hefyd am beth arall gallwch ei wneud i helpu, er enghraifft, cadw mewn cysylltiad â'ch teulu a'ch ffrindiau, cadw golwg ar eich cymdogion, yn enwedig y rheiny sy'n agored i niwed a allai gael eu targedu gan droseddwyr. Gallwn hefyd gyfeirio pobl sydd mewn angen at y cymorth a'r wybodaeth iawn.

Os hoffech rannu stori am gymwynas, anfonwch neges drydar atom @CarmsCouncil drwy ddefnyddio'r hashnod #SirGaredig neu postiwch ar ein tudalen Facebook @CarmarthenshireCC

## Yr Urdd yn agor y drysau i Eisteddfod T!

"Caewch y drysau yn y cefn, y gegin a'r lolfa, diffoddwch y peiriant torri gwair a sychu gwallt a rhowch bob chwarae teg i'r cystadleuydd nesa', mae Eisteddfod T ar fin dechrau..."

Ddydd Gwener, Ebrill 24, cyhoeddodd Urdd Gobaith Cymru eu bod am gynnal Eisteddfod arbennig, wahanol eleni, sef Eisteddfod T. Yn dilyn y siom o orfod gohirio Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 tan 2021, bydd Eisteddfod T yn ddathliad bywiog a byrlymus o holl ddoniau plant ac ieuenctid Cymru, ar lwyfan ychydig yn wahanol i'r un arferol.

Bydd y cystadleuwyr yn cystadlu yn ddigidol, trwy uwch-lwytho fideos, clipiau a lluniau o berfformiadau a chynnyrch, a bydd y rowndiau terfynol yn cael eu darlledu mewn rhaglenni arbennig ar S4C, ar wefan S4C ac ar BBC Radio Cymru. Cynhyrchir yr arlwy i S4C gan AVANTI.

Bydd Eisteddfod T (sy'n chwarae ar y geiriau ti a tŷ) i'w gweld a chlywed ar ystod o raglenni a phlatfformau yn ystod yr wythnos yn cychwyn Mai 25, sef yr wythnos pryd roedd yr Eisteddfod ei hun i fod i gael ei chynnal.

Mae'r rhestr testunau a chyfarwyddiadau sut i gystadlu i'w gweld ar wefan www.S4C.cymru/urdd, sydd nawr ar agor i gystadleuwyr.

Yma hefyd mae cyfeiliant, gosodiadau, tips ffilmio a recordio a phopeth sydd ei angen i gystadlu. Yn ogystal â chystadlaethau traddodiadol fel cerdd-dant a chorau, mae cystadlaethau eraill mwy anffurfiol – dynwared, lip-sync a chystadlaethau i'r teulu i gyd... a hyd yn oed anifeiliaid anwes! Dyddiad cau'r cystadlu yw Mai 11 am hanner dydd.

"Mi fydd Eisteddfod T yn arbennig," meddai Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, Sian Eirian. "Roedd yr Urdd yn benderfynol o gael Eisteddfod mewn ryw ffurf a darparu cyfle i blant a phobl ifanc lle mae'r Eisteddfod yn gymaint o ran o'u calendr. Yn yr un modd, roedd ein partneriaid darlledu - S4C a BBC Radio Cymru - hefyd yn awyddus i gynnal darpariaeth ar gyfer y cynulleidfaoedd sydd wedi arfer â wythnos o arlwy eisteddfodol ddiwedd Mai.

"Mi fydd Eisteddfod T yn cynnig cyfle am gystadlaethau arferol, ar lwyfan ychydig yn wahanol, a chael ychydig o hwyl yn ogystal."

Meddai Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys S4C: "Bydd S4C yn dod â holl dalentau gorau Cymru i chi, a hynny o gartrefi cannoedd o gystadleuwyr ledled y wlad. Ry'n ni'n falch iawn o fod yn rhan o'r cynllun arloesol hwn gyda'r Urdd a byddwn yn darlledu yn ddigidol ac yn llinol gyda rhaglen uchafbwyntiau hefyd bob nos. Yn sicr mae'n mynd i fod yn ddigwyddiad i'w gofio!"

Dywed Rhuanedd Richards, Golygydd BBC Radio Cymru: "A ninnau mewn cyfnod anodd i bawb, gan gynnwys ein pobl ifanc, mae'n braf iawn cael cydweithio efo'r Urdd iddod â hwyl yr ŵyl newydd a gwahanol hon iw randawyr BBC Radio Cymru. Mi fydd Eisteddfod T yn gyfle i ni ddarlledu doniau a thalentau newydd Cymru, o gartrefi'r cystadleuwyr, i ddegau o filoedd o dai ar hyd y wlad, gyda rhai o leisiau adnabyddus yr orsaf yn llywio'r arlwy. Rydyn ni'n edrych 'mlaen yn fawr ac yn falch o gael y cyfle hwn i geisio codi calonnau'r genedl."

Gyda thestunau Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 wedi eu rhewi tan flwyddyn nesaf, mae holl destunau Eisteddfod T yn newydd, a'r mwyafrif yn hunan-ddewisiad. Bydd Eisteddfod T hefyd yn cynnig prif wobrau llenyddol, cerdd, drama, celf ac i ddysgwyr yn ystod yr wythnos.

Twitter: @eisteddfodurdd
Facebook: @eisteddfodurdd
Instagram: @urddgobaithcymru
TikTok: @urddgobaithcymru
#EisteddfodT

## Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, 18 Mai 2020 – Stopio'r Cloc ac Ail ddechrau

Thema neges eleni yw dyhead pobl ifanc i weld y byd yn gwrando ac yn dysgu o argyfwng feirws Covid-19.

Mae'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn unigryw i Gymru, ac wedi ei danfon yn flynyddol ers 98 o flynyddoedd - dyma'r unig neges o'i bath yn y byd.

Gofynnaf am eich cefnogaeth i helpu pobl ifanc Cymru ar y 18fed o Fai i wneud hon y neges fwyaf mewn hanes.

Bydd y neges yn cael ei chyhoeddi o gyfrifon cymdeithasol Urdd Gobaith Cymru ar ddydd Llun y 18fed o Fai ac rydym yn gofyn i chi wneud o leiaf 1 o'r 3 peth canlynol:

1. Aildrydarwch / postio y neges ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar y 18fed o Fai gyda -
   - Llun o honoch yn gwneud symbol 'triongl' gyda'ch dwylo fel hyn a #heddwch2020 -



   - Neu Emoji baner eich gwlad chi / Emoji y byd / Eich hoff Emoji a #heddwch 2020
2. Paratowch ymateb i'n neges ni - gall hyn fod yn lun/geiriad /gair o gefnogaeth /lluniau / fideo /can gan ddefnyddio #heddwch2020 neu ei ebostio at heddwch@urdd.org
3. Anogwch eich ffrindiau a chysylltiadau ar draws y byd i ymateb

Helpwch yr Urdd

Helpwch Gymru

Helpwch ein Pobl ifanc .................. i gyrraedd 15 miliwn o bobl mewn 50 o wledydd ar draws y byd yn 2020!

Eisiau mwy o fanylion e-bostiwch - heddwch@urdd.org

## Wyau Pasg arbennig i Blant Sir Gaerfyrddin

Cafodd plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr critigol yn Sir Gaerfyrddin wyau Pasg arbennig eleni.

Cyflwynwyd rhoddion caredig o wyau siocled a theisennau croes i'r holl ganolfannau gofal plant a'r canolfannau bwyd yn y sir.

Mae'r canolfannau gofal plant wedi cael eu sefydlu i ofalu am blant gweithwyr critigol ac i gefnogi plant sy'n agored i niwed yn ystod y pandemig coronafeirws.

Mae nifer o ganolfannau bwyd hefyd wedi cael eu sefydlu gan y cyngor ledled y Sir i helpu teuluoedd mewn angen. Mae'n golygu y bydd plant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim hefyd yn derbyn cyflenwadau bwyd sych i fwydo'r teulu cyfan.

Roedd y cyfanwerthwr bwyd Bookers yng Nghaerfyrddin wedi rhoi 50 bocs o wyau Pasg Cadbury's Creme Egg i'w rhannu rhwng y canolfannau bwyd ar gyfer plant sy'n cael prydau ysgol am ddim - dyna gyfanswm o 1,968 o wyau!

Ac roedd siopau'r Co-op yn Rhydaman a PhorthTywyn, Morrisons yn Llanelli, Clybiau Rotari Caerfyrddin a Llanelli a Chyngor Tref Llandeilo wedi rhoi wyau Pasg i'r holl blant sy'n mynychu'r canolfannau gofal.

Roedd Morrisons yng Nghaerfyrddin hefyd wedi rhoi wyau Pasg i'r holl staff s fu'n gweithio yn y canolfannau ddydd Gwener y Pasg; a bu becws Hafod o Gaerfyrddin hefyd yn dosbarthu teisennau croes a bara.

Diolch hefyd i Morrisons, Caerfyrddin am ddosbarthu wyau Pasg i'n criwiau casglu sbwriel yn Depo Cillefwr ddydd Iau 9 Ebrill - roedd pawb wrth eu boddau!

Os oes gennych unrhyw weithred o garedigrwydd yr hoffech ei rhannu, mae croeso i chi anfon neges drydar i @CarmsCouncil gan ddefnyddio'r hashnod #SirGaredig neu roi neges ar ein tudalen Facebook @CarmarthenshireCC

# Newyddion o'r Pentrefi

## Pontyberem

### Caersalem Pontyberem

**Sul y Blodau**

Trodd Sul y Blodau'n ddydd o hirlwm 'nawr
A'r geiriau'n llonydd mewn mynwentydd llwm;
Daeth neb yn ôl yr arfer gyda'r wawr
I blygu dros y beddau yn y Cwm;
Tawelodd sgwrs gymdogol teulu'r Ffydd
Lle cerddodd cenedlaethau yn eu tro,
I baratoi at wyrth y trydydd dydd
Gan gofio eu hanwyliaid yn y fro.
Mae mwy na geiriau yn y meini hyn –
Hen gymeriadau ein cymdeithas wâr,
Atgofion ddoe sydd yma'n dal ynghyn
Am ŵr a gwraig a phlentyn ac am gâr.
Gorchmynnwyd cadw pellter er ein lles,
Y pellter hwnnw ddaeth â ni yn nes.

Soned gan Arwel John un o aelodau Eglwys Caersalem Pontyberem.

### Cadwyn Weddi Caersalem Pontyberem

Mae'r Parch Emlyn Dole, Gweinidog Caersalem Pontyberem, wedi paratoi cynllun ar gyfer aelodau'r Eglwys yn sgil ein sefyllfa bresennol o fethu â dod at ein gilydd i gyd-addoli oherwydd y feirws.

Y syniad, yn syml iawn, yw Cadwyn Weddi, lle bydd pawb sydd â diddordeb yn ymrwymo i weddio ar adeg arbennig yn y sicrwydd fod yna eraill wedi ymrwymo i wneud yr un peth ar yr un pryd.

Dyma restr o destunau gweddi ond does dim rhaid cyfyngu eich hunain i'r rhain.

**Rhestr Weddi i'r Gadwyn**

*Gweddiwch y bydd y feirws yma yn ein gadael heb gymeryd gormod o'n cyd-ddynion mewn angau.*

*Gweddiwch ar ran pawb sydd yn dioddef oherwydd y Coronafeirws.*

*Gweddiwch dros yr amrywiol wasanaethau a'u gweithwyr sydd wrthi yn ceisio cynorthwyo pawb sydd yn dioddef.*

*Gweddiwch dros wirfoddolwyr sydd yn rhoi o'u hamser a'u gwasanaeth i gynorthwyo.*

*Gweddiwch am ddiogelwch ein cymdeithas.*

*Gweddiwch y daw adferiad llwyr i ni fel cymdeithas pan ddaw diwedd ar yr argyfwng*

Dyma fydd amserau gweddi y gadwyn.

Rhwng 8.00pm ac 8.30 pm ar Nos Lun, Nos Fercher a Nos Wener.

Rhwng 11.00am ac 11.30am ar foreau Dydd Sul.





## Pethau’r Plant

## Lliwiwch y Lluniau a Chysylltwch y Dotiau





**Cae'r Ffair**

MEITHRINFA DDWYIEITHOG

2, Heol yr Eglwys
Gorslas

**Ffôn: 01269 833844**

---

Papur Bro
**Papur y Cwm**
www.papurycwm.org.uk

Hoffech chi hysbysebu ym

**Mhapur y Cwm?**

Am wybodaeth bellach, ffoniwch
Paul Thomas ar 07983 578771

---

RR
**Roger Rees**

Gwasanaeth Atgyweirio Ceir
Curo Paneli a Chwistrellu Paent
Gwaith Yswiriant a Phreifat
AMCANGYFRIF AM DDIM

Ffôn: 01269 844713 Symudol: 07889 823153
Ffacs: 01269 844959
33, Heol Cross Hands, Gorslas, Llanelli
Sir Gaerfyrddin. SA14 6RR

---

**Garej Raymond**
Pontyberem

SYLW PERSONOL BOB AMSER

Gwasanaeth cyflawn i'r modurwr.
Gwerthiant ceir newydd ac ail law.
Trwsio ceir ar ôl damweiniau.

M.O.T.
GWASANAETH ACHUB 24 AWR

SEAT

**Ffôn: 01269 870285**

---

Tarmacwyr
**Cwm Gwendraeth**

Garej Ffrwd
Pontiets, Llanelli
Sir Gaerfyrddin

**Ffôn: 01269 860496**

---

Dechreuwch yr antur

Ysgol Foduro
**Brian**

**0779 1640845**

---

FFERYLLFA
**P. Griffiths**
PONTIETS

**Ffôn: 01269 860343**

Gwasanaeth da Bob amser

---

sauro
ARCHITECTURAL DESIGN

**Sauro Architectural Design Ltd**
Ymarfer Pensaernïol Siartredig
9 Teras Elliston,
Caerfyrddin, SA31 1HA

CIAT

01267 233684
design@sauroarchitectural.co.uk
www.sauroarchitectural.co.uk

---

Gwesty a Bwyty
**Y Baltic**

Priodasau
Partion
Carferi

Ar gael ar gyfer pob achlysur

**Ffôn: 01269 861409**

## Meithrinfa Camau Bach

'Cymorth yn ystod y camau bach cyntaf '



Rhif ffôn: 01269 844228

20, Heol Cwmmawr
Drefach llanelli
Sir Gaerfyrddin SA14 7AA

---

Carpedi Cwm

## Gwendraeth

Carpedi a Bleinds o bob math



Ffôn: 01269 871364

Symudol: 07831430116

---

## Esgidiau'r Cwm

Van Dal, Rieker/Remont, Fly, Steptronic, DP, Padders, Josef Seibel, Romika Rohde, Barker, Lotus, Ara / Jenny, Adesso, Lelli Kelly, Start Rite, Ecco, Petasil, Bo Bell, Noel, Babybotte, Hush Puppies,



01269 841302

Greenhill, High Street, Tymbl, Llanelli. SA14 6HD

---

## Y FARCHNAD FACH TYMBL

Bara Ffres
Ffrwythau a Llysiau
Llaeth, Menyn,
Wyau, Caws

4, Heol Bethesda
Tymbl
01269 844555
6.30 - 10.00p.m
8.00 a.m - 9.00 p.m Sul

Prif Gyflenwyr Nwy 'Flo'
Glo'r Ddraig
Fideos ar Log

a hefyd

67, HEOL WATERLOO, CAPEL HENDRE
Ffôn: 01269 832444
Oriau Agor - 7.00 a.m. - 9.00 p.m (Llun - Sadwrn)

---

## Meithrinfa Cwtsh y Clos

Danyrallt, Llanarthne, Sir Gaerfyrddin.
SA32 8JX

Perchennog
Gwenllian Davies
07896 763034
cwtshyclos@outlook.com
www.cwtshyclos.co.uk

---

## CROSS TYRES & AUTO

CANOLFAN MOT

Ffon: 01269 844859

TEIARS - CLUTCHES - EXHAUSTS
BRECIAU - BATRIS a GWASANAETHU

Uned 6, Ystad Ddiwydiannol Cross Hands,
Llanelli SA14 6RE

---

## Lloyd & Gravell Ltd

*"Adeiladu am y Dyfodol"*

Ffon: 01554 758400
Ffacs: 01554 758440



43, Myrtle Hill
Ponthenri
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5PD

E-bost: enquiries@lloydandgravell.co.uk
Web: www.lloydandgravell.co.uk

---

## WYN BISHOP

Trefnwyr Angladdau
Saer Meini Coffa



Gwasanaeth personol bob amser
Capel Gorffwys
ac Ystafelloedd Preifat

'Waunddewi'
43, Heol Cross Hands
Gorslas

Ffôn: 01269 842258

---



## J.M.S. Cyflenwadau Agreg

Iard Brynteg, Heol Llannon
Y Tymbl, Llanelli

Ffôn: 01269 844348

Cyflenwyr: Tywod, pob gradd o carreg chwarel
Carreg.Cerrig Addurniadol, Smenr, Slabiau Patio,
Uwch Bridd, Blociau Concrid

Y cyfan yn cael eu cyflenwi yn rhydd neu mewn bagiau, unrhyw faint ar gael.
Croeso i chwi gasglu yn bersonol neu ddefnyddio'r gwasanaeth cludiant i'r drws.

Oriau agor - Llun i Gwener: 8.00 y.b. - 5.00 y.p.
Sadwrn: 8.00 y.b. - 12.00 y.p. Sul: 9.00 y.b. - 12.00 y.p.

---

KING BLINDS GORSLAS


78, Grove Hill Park
Gorslas
SA14 7LF

Llenni wedi'u gwneud â llaw

Ffôn: 01269 844334

Ffôn Symudol: 07968711775

# Croesair y Gwanwyn



**I lawr**

1. Beth oedd enw'r dduwies Roegaidd yr enwyd mis Mai ar ei hôl? (4)

3. Mae 'Y Gwanwyn', 'Caneuon y Tri Aderyn' ac Eirlysiau ymhlith cyfansoddiadau pa gyfansoddwraig o Gymru? (5, 5-7)

5. Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi 1976, pa fardd o Geredigion enillodd y Gadair am ei awdl, 'Y Gwanwyn', cyn ei cholli eto am ei fod yn aelod o'r pwyllgor! (3, 5)

6. Mae Deffro'r Gwanwyn, un o gynyrchiadau Theatr Genedlaethol Cymru, yn gyfieithiad o ddrama Almaeneg gan ba ddramodydd? (5, 8)

8. Pa greadur o'r bondo ryw ddiwrnod aeth i grwydro? (5, 1, 3)

9. Daw hyfryd fis Mehefin cyn bo' hir, ond pa aderyn a glywir yn canu'n iach yn ein tir?

10. Cân gan ba grŵp o ddynion o'r gogledd oedd 'Y Gwanwyn'? (6, 5)

13. "____________ gwyn, gwên Gwanwyn". (5)

15. Enw arall ar y gwcw (1, 3)

**Ar draws**

2. Polyn wedi ei addurno â rhubanau yr arferwyd dawnsio o'i amgylch ar Galan Mai (6, 3)

4. Beth ddefnyddiodd Mam i wneud cot i'r titw bach? (4, 2, 4, 3)

7. Mai y 1af (5, 3)

8. Mae 'Mis Mai' yn gywydd gan ba fardd o'r 14eg ganrif (5, 2, 6)

11. Yn ôl yr hen ddihareb, "Un _________ ni wna wanwyn". (6)

12.Mae Y Gwanwyn yn un o gasgliad o bedwar concerto i'r ffidil gan Vivaldi, ond beth yw'r enw ar y casgliad? (1, 6, 5)

14. Diwrnod a gynhelir gan yr Urdd ym mis Mai i drosglwyddo neges bwysig o heddwch! (6, 2)

16.Yn ôl y Diarhebion, "Yn llewyrch wyneb brenin y ceir bywyd, ac y mae ei ffafr fel _____ yn y gwanwyn

Ydych chi'n aelod o glwb chwaraeon yng Nghwm Gwendraeth?
Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych. Anfonwch unrhyw newyddion, hysbys neu luniau at ann@mcge.org.uk
neu cysylltwch ag Ann ym Menter Cwm Gwendraeth ar 01269 871600

Papur y Cwm